

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD  
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 28/06/2016

**PWNC / SUBJECT**

Eitem : Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd

Item : *Llŷn and Eifionydd Employment Plan*

---

**PENDERFYNIAD / DECISION**

Mabwysiadu 'Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd' fel sail ar gyfer cyfeirio ymdrechion y Cyngor a'i bartneriaid i gynnal a chreu gwaith yn ardal Dwyfor.

*To adopt the 'Llŷn and Eifionydd Employment Plan' as a basis for directing the efforts of the Council and its partners in order to maintain and create employment in the Dwyfor Area.*

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION**

Sefydlwyd Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd gan y Cyngor yn 2010. Ar sail y penderfyniad hwn, blaenoriaethwyd ymdrechion i greu swyddi newydd yn ardal Meirionnydd rhwng 2010 a 2014, ac mae'r gwaith bellach yn dwyn ffrwyth.

Yng Nghynllun Strategol 2013 - 2017 y Cyngor ymrwymwyd i sefydlu Cynllun Cyflogaeth i ardal Llŷn ac Eifionydd. Mewn ymateb i'r ymrwymiad hwnnw, cynhaliwyd cyfres o weithdai a chyfarfodydd gydag Aelodau o'r Cyngor ar Fforwm Ardal Dwyfor dros gyfnod o ddeunaw mis. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd hefyd gyda gwahanol gyflogwyr yn yr ardal.

O ganlyniad, lluniwyd Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd (Atodiad 1 yr adroddiad i'r cyfarfod) gan ddilyn model Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd. Mae'r Cynllun yma'n crynhoi'r heriau ac yn amlygu ymatebion bras, drwy gynnig cyfleoedd o fewn mentergarwch i annog meddwl mewn ffyrdd newydd, gwahanol.

Nod y Cynllun yw annog cydweithio gyda phartneriaid i adeiladu ar gryfderau Llŷn ac Eifionydd – ei hadnoddau naturiol, cynnyrch, treftadaeth, ei thalentau, ei hunaniaeth a'r iaith Gymraeg – er mwyn cynyddu cyflogaeth, mentergarwch a swyddi gwerth uchel ar draws yr ardal, manteisio ar gyfleoedd i fusnesau lleol dyfu, a chreu'r amodau i bobl ifanc aros neu ddechreio i'r ardal i fyw a gweithio. Mae ffocysu ar sicrhau bod yr isadeiledd priodol yn ei le, gan gynnwys cefnogaeth TG angenrheidiol a darpariaeth band eang cyflym yn hanfodol.

Mae'n gam angenrheidiol ymlaen i'r ardal a bwriedir iddo ddarparu sail i'r dyfodol gan grynhoi'r prif negeseuon i'r Cyngor a'i bartneriaid wrth gynllunio i gynnal a chreu gwaith yn Nwyfor. Bydd y Cynllun hefyd yn gymorth i gyflogwyr Llŷn ac

---

---

Eifionydd ac i'r rhai sydd yn ystyried sefydlu menter yn yr ardal gan ei fod yn crynhoi amgylchiadau'r economi ac yn amlygu meysydd sydd yn cynnig cyfle.

Mae'r Cyngor yn gweithio ar y cyd gydag ystod o bartneriaid o fewn y sector cyhoeddus a'r drydedd sector - ynghyd â chyflogwyr a busnesau lleol – wrth ymyrryd i ddatblygu'r economi leol ac ymdrechu i sicrhau bod y buddsoddiadau i'r ardal yn parhau. Yn hyn o beth, mae sicrhau fod agenda cytûn gyda chefnogaeth gynhwysfawr yn allweddol.

Nid yw'r Cynllun yn ymrwmo adnoddau. Bwriedir i'r Cynllun fod yn fodd o gyfeirio a chydlynu ymdrechion i sicrhau fod ymyraethau yn effeithiol ac yn effeithlon.

*The Meirionnydd Employment Plan was established by the Council in 2010. On the basis of this decision, efforts to generate new employment in Meirionnydd were prioritised between 2010 and 2014, and the work is now bearing fruition.*

*In its Strategic Plan for 2013 - 2017 the Council committed to establish an Employment Plan for the Llŷn and Eifionydd area.*

*In response to that commitment, a series of workshops and meetings were held over an eighteen month period with Council Members on the Dwyfor Area Forum. A series of meetings were also held with employers in the area.*

*Consequently, the Llŷn and Eifionydd Employment Plan was formulated (Appendix 1 of the report to the meeting) following the Meirionnydd Employment Plan model. This Plan provides a summary of the challenges and outlines responses, by offering opportunities within enterprise to encourage new and different ways of thinking.*

*The aim of the Plan is to encourage collaboration with partners to build on the strengths of Llŷn and Eifionydd – its natural resources, its produce, its heritage, its talents and the Welsh language - to increase employment, enterprise and high value jobs across the area, and take advantage of opportunities for local businesses to grow and create the right conditions for young people to remain or return to the area to live and work. Focusing on ensuring that the appropriate infrastructure is in place, including necessary IT support and provision of superfast broadband is essential.*

*It is a necessary step forward for the area and it is intended for it to be a basis for the future summarising the main messages for the Council and its partners as they plan to maintain and generate employment in the Dwyfor Area. The Plan will also assist employers in Llŷn and Eifionydd and those considering establishing a new enterprise in the area as it summarises the circumstances of the economy and highlights fields which offer opportunities.*

*The Council works with a range of partners in the public and third sectors - alongside local businesses and employers - as it intervenes to develop the local economy and attempts to ensure that the investments in the area continue. To this end, ensuring there is a clear and broadly agreed agenda is crucial.*

*The Plan does not commit resources. The Plan is intended to be a way of directing*

---

---

*and coordinating efforts to ensure that interventions are effective and efficient.*

---

## **SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS**

Nodwyd yr angen i ailymweld â rhai o benawdau'r Cynllun yn dilyn canlyniad refferendwm Ewrop a gymerodd lle dydd Iau 23 Mehefin 2016.

Mae'n gadarnhaol iawn fod y Cynllun yn cyfrannu at y Cynllun Llesiant a fabwysiedir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhanbarthol, ond i sicrhau cysondeb, nodwyd yr angen i wirio a yw ardaloedd yn cyd-fynd gyda'r ardaloedd llesiant a ddynodwyd gan y Bwrdd.

Gan dderbyn y sylwadau uchod, derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros yr Economi a Chymuned.

*The need to review some headings in the Plan following the results of the referendum on the European Union which had taken place on Thursday 23 June 2016 was noted.*

*It is very positive that the Plan contributes to the Well-being Plan adopted by the Public Services Board regionally, but to ensure consistency, the need to check whether areas comply with the well-being areas designated by the Board was noted.*

*Accepting the aforementioned observations, the report submitted by the Cabinet Member for Economy and Community was accepted.*

---

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS**

### **1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-**

Mae'n bwysig bod gan y Cyngor gyfeiriad clir ar gyfer ei waith adnewyddu ac adfywio yn yr ardal hon; dyna pam yr ymrwymwyd i baratoi cynllun o'r fath, ar yr un patrwm a Chynllun Cyflogaeth Meirionnydd. Rwy'n cymeradwyo'r Cynllun sydd wedi ei drafod gyda'r Fforwm Ardal yn Nwyfor.

*It is important that the Council has a clear direction for its work to rejuvenate and regenerate this area; this is the reason why a commitment was made to prepare such a plan, modelled on the Meirionnydd Employment Plan. I approve the plan which has been discussed with the Area Forum in Dwyfor.*

### **2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

*No comments to add from a propriety perspective.*

---

---

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-

Rwy'n cefnogi'r argymhelliad i fabwysiadu 'Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd', gan nodi'r datganiad nad yw'r eitemau yn y rhaglen waith yma ar gyfer 2016/17 yn ymrwymo adnoddau'r Cyngor uwchben yr hyn sydd eisoes wedi'i glustnodi i'r perwyl, ac mai bwriad Cynllun Cyflogaeth yw cyfeirio a chydlynu ymdrechion i sicrhau bydd ymyraethau yn ardal Llŷn ac Eifionydd yn effeithiol ac effeithlon.

Credaf fod y rhagymadrodd yn rhan 8 o'r Cynllun Cyflogaeth yn eglurhad teg iawn o'r cyd-destun. Ymhellach, mae'r awdur wedi cadarnhau fod y rhaglen waith i'w ariannu drwy gyfuniad o ddefnydd adnoddau presennol yr Adran Economi a Chymuned, ynghyd ag ymrwymadau cyfredol o Gynllun Strategol y Cyngor (eitemau gyda \* ar dud. 14 rhaglen waith y Cynllun a gyflwynwyd), a chynlluniau sydd wedi'u cyllido'n allanol (e.e. Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop).

Rwy'n gwerthfawrogi hefyd fod yr adroddiad i'r cyfarfod yn datgan y bydd prif bwyslais y Cynllun Cyflogaeth ar "sicrhau fod y fantais fwyaf bosib yn deillio o'r buddsoddiadau cyfalaf sydd eisoes wedi eu cwblhau (megis Yr Academi Hwyllo, Llwybr Arfordir Cymru, Nant Gwrtheyrn, Cyflymu Cymru, ayyb) ac ar wyro rhaglenni presennol megis Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru i roi sylw i anghenion penodol yr ardal.

*I support the recommendation to adopt the Llŷn and Eifionydd Employment Plan noting the statement that the items on this work programme for 2016/17 do not commit the Council's resources above what has already been earmarked to this end, and that the purpose of the Employment Plan is to direct and coordinate efforts to ensure that interventions in the Llŷn and Eifionydd area are effective and efficient.*

*I believe that the preface in part 8 of the Employment Plan is a very fair explanation of the context. Furthermore, the author has confirmed that this work programme is to be funded via a combination of using the existing resources of the Economy and Community Department, together with current commitments from the Council's Strategic Plan (items denoted with \* on page 14 of the work programme of the Plan submitted), and externally funded schemes (e.g. European Maritime and Fisheries Fund).*

*I also appreciate that the report to the meeting states that the primary emphasis of the Employment Plan will be on "ensuring the maximum benefits from existing capital investments (such as The Sailing Academy, Costal Path, Nant Gwrtheyrn, Superfast Wales, etc.) and on ensuring existing programmes such as the Rural Development Plan for Wales direct resources to the area's needs.*

---

**BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER**

Nid yw'n fater lleol sy'n effeithio ward unigol yn benodol ond mae'r Cynllun wedi ei drafod a'i gefnogi gan Fforwm Ardal Dwyfor ar 7 Mawrth 2016.

*Not a local matter which affect an individual ward specifically but the Plan has been discussed and supported by the Dwyfor Area Forum on 7 March 2016.*

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD  
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 28/06/2016

**PWNC / SUBJECT**

Eitem : Lôn Las Ogwen

Item : Lôn Las Ogwen

---

**PENDERFYNIAD / DECISION**

Cefnogi'r cynllun i'w weithredu fel rhan o raglen gyfalaf yr Adran Rheoleiddio yn 2016/17 gan ddefnyddio'r grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol a chyllid adrannol sydd wedi ei adnabod at ddibenion y prosiect.

*To support the scheme to be implemented as part of the Regulatory Department's capital programme in 2016/17 using the grant from the Local Transportation Fund and departmental funds which have been identified for this project.*

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION**

Bu trafodaethau gydag Aelodau Cabinet yn ôl yn Nhachwedd 2015 ynglŷn â'r bwriad i ddatblygu twnnel a strwythurau eraill sy'n rhan o'r gyn rheilffordd yn Nhregarth fel rhan o lwybr Lôn Las Ogwen. Roedd awydd ar y pryd i gefnogi'r bwriad mewn egwyddor ond gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r elfen ariannol a'r budd fyddai'n deillio o weithredu'r cynllun. Hefyd, gan fod Lonydd Glas ar y pryd wedi ei restru fel toriad posibl roedd yr Aelodau yn awyddus i gael sicrwydd ynglŷn â phenderfyniad y Cyngor Llawn ar y toriadau'n Mawrth 2016, cyn penderfynu ar y mater. Erbyn hyn mae'r sefyllfa'n gliriach, ac yn sgil yr ymgynghoriad Her Gwynedd ar y toriadau posibl penderfynwyd peidio torri'r gyllideb ar gyfer rheoli a chynnal y Lonydd Glas.

Y bwriad ydi creu cymal newydd, 800m o hyd er mwyn cwblhau llwybr Lôn Las Ogwen rhwng Bangor a Bethesda ac ymlaen i Gapel Curig. Er yn gymal byr mae'r gwaith yn cynnwys diogelu craig ar ochr yr hafn, goleuo'r twnnel sy'n 275m o hyd a chamau i ddiogelu defnyddwyr ar y draphont dros yr afon Ogwen. Yn ychwanegol rhaid gosod wyneb sy'n addas ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

Mae'r adroddiad i'r cyfarfod yn cadarnhau bod cyllid wedi ei sicrhau ar gyfer gweithredu'r cynllun o fewn y flwyddyn ariannol bresennol. Mae'r Adran Rheoleiddio wedi llwyddo yn ystod 2015 / 16 i adnabod adnoddau un-tro ac wedi ymgynhori gyda'r Aelodau'r Cabinet perthnasol a'r Pennaeth Cyllid, wedi neulltuo £200,000 mewn cronfa adrannol, wedi'i glustnodi ar gyfer ei ddefnyddio i ariannu cyfraniad y Cyngor tuag at y cynllun yma ac wedi galluogi'r Adran i ddenu £230,000 o grant gan Gronfa Trafnidiaeth Leol, Llywodraeth Cymru.

---

---

Yn ogystal, mae'n cadarnhau bod eisoes sicrwydd o gyllideb refeniw yn sgil cefnogaeth Pobl Gwynedd i warchod cyllideb y Lonydd Glas ac ymrwymiad gan y Cyngorau Cymuned i gyfrannu at y costau cynnal / goleuo.

Mae datblygiad Lôn Las Ogwen dros y blynyddoedd diweddar wedi digwydd oherwydd brwdfrydedd a chefnogaeth y gymuned leol ac yn ddiweddar mae Cyngorau Cymuned Bethesda a Llandygai wedi datgan eu bod yn awyddus iawn i weld y cymal drwy'r twnnel yn cael ei gwblhau ac wedi datgan parodrwydd i gyfrannu tuag at y costau cynnal.

Yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2012, roedd 94% o'r ymatebion yn cefnogi'r bwriad i greu llwybr rhwng Tregarth a Bethesda. Dywedodd 79% eu bod yn fodlon defnyddio'r twnnel os byddai yn cael ei oleuo. Mae offer cyfri ar y llwybr yn dangos dros 100,000 o siwrnai ar y Lon Las yn flynyddol.

Mae cefnogaeth leol amlwg i'r prosiect, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o'r buddion canlynol a ddaw o'i weithredu:

- Teithio llesol : mae Deddf Teithio Llesol 2015 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau lleol i ddarparu adnoddau sy'n caniatáu i'r cyhoedd gerdded a beicio i fan gwaith, i ysgol neu goleg, i dderbyn gwasanaeth cyhoeddus megis meddygfa, swyddfa bost, llyfrgell ayb. Drwy gwblhau'r Lon Las drwy'r twnnel mae trigolion Bethesda a'r cyrion (poblogaeth o oddeutu 24,000) yn gallu manteisio ar adnodd i deithio heb ddefnyddio cerbyd sy'n dod a buddion o ran lles yr unigolyn a'r amgylchedd. Wrth weithredu'r cynllun mae'r Cyngor yn cwrdd ag amcanion Deddf Teithio Llesol.
- Diogelwch: gan nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng dau ran y Lon Las ar hyn o bryd rhaid i ddefnyddwyr ddilyn y briffordd rhwng Tregarth a Bethesda. Bydd llwybr uniongyrchol drwy'r twnnel yn lleihau'r risg o ddamwain rhwng defnyddwyr y Lon Las a thraffig ar y briffordd.
- Llesiant/Hamdden : mae'r rhwydwaith Lonydd Glas eisoes yn adnodd sy'n cael defnydd helaeth gan drigolion lleol sy'n dymuno cadw'n heini. Bydd datblygu'r twnnel yn darparu gwell adnodd sy'n hwylus i drigolion Tregarth a Bethesda gan gynnwys aelodau clybiau a chymdeithasau chwaraeon fel Clwb Rygbi Bethesda sydd gerllaw'r llwybr presennol. Credir bod y datblygiad yn cyd-fynd ag amcanion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd yn gysylltiedig â Chymru iachach a chymunedau cydlynol.
- Yr Economi/Twristiaeth : mae'r Cyngor a Chroeso Cymru yn canolbwyntio ymdrechion marchnata ar y sector awyr agored gyda cherdded a beicio yn flaenllaw yn yr ymgyrchoedd. Mae gan Lon Las Ogwen y potensial i fod yn gyfrwng effeithiol o ddenu cerddwyr a beicwyr i Bethesda ac ymlaen i Nant Ffrancon a Llyn Ogwen. Bydd datblygu'r twnnel a'r draphont nid yn unig yn hwyluso teithio gan ymwelwyr ar droed a beic ond maent yn atyniadau ynddo'u hunain i'w gwerthfawrogi fel rhan o dreftadaeth ddiwydiannol ardal Bethesda.

Bydd yr adran, gyda'r Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio yn mynd ati i ystyried ffyrdd o hyrwyddo defnydd o'r llwybr unwaith y bydd y gwaith wedi ei gwblhau er mwyn sicrhau'r gwerth gorau o'r datblygiad.

---

---

*Discussions were held with Cabinet members back in November 2015 regarding the intention to develop a tunnel and other structures which are part of the former railway in Tregarth as part of the Lôn Las Ogwen path. There was a desire at the time to support the proposal in principle but further information was requested regarding the financial element and the benefits which would arise from implementing the scheme. Also, as the Recreational Routes had been listed as a possible cut at the time, Members were eager to be certain of the decision of the Full Council regarding the cuts in March 2016, prior to making a decision on the matter. By now the situation is clearer, and as a result of the Gwynedd Challenge consultation on the possible cuts, it was resolved not to cut the budget for managing and maintaining the Recreational Routes.*

*The intention is to create a new, 800m long section in order to complete the Lôn Las Ogwen route between Bangor and Bethesda and on to Capel Curig. Though a short section, the work includes securing a rock at the side of the ravine, illuminating the tunnel which is 275m long and steps to safeguard users on the viaduct over the Ogwen river. In addition, a surface which is suitable for pedestrians and cyclists must be installed.*

*The report to the meeting confirmed that funding has been secured to implement the scheme within the current financial year. During 2015/16 the Regulatory Department has managed to identify one-off resources and has consulted with the relevant Cabinet Members and the Head of Finance Department, has earmarked £200,000 in a departmental fund, allocated to be used to fund the Council's contribution towards this scheme and has enabled the Department to attract a £230,000 grant from Welsh Government's Local Transportation Fund.*

*In addition, it confirms that there is already assurance of revenue budget as a result of the support of the People of Gwynedd to protecting the Recreational Routes budget and commitment from the Community Councils to contribute to the maintenance / lighting costs.*

*The development of Lôn Las Ogwen in recent years has happened due to the enthusiasm and support of the local community and recently, Bethesda and Llandygai Community Councils have stated that they are very eager to see the section through the tunnel being completed and have expressed their willingness to contribute towards the maintenance costs.*

*During the public consultation undertaken in 2012, 94% of the responses supported the intention to create a path between Tregarth and Bethesda. 79% said that they would be willing to use the tunnel provided it was well lit. Counters on the path show over 100,000 journeys on the Lôn Las annually.*

*There is obvious local support for the project as well as awareness of the resulting benefits of implementing it:*

- Active Travel : the Active Travel Act 2015 places a duty on Local Authorities to provide resources which allow the public to walk and cycle to a place of work, school or college, to use public services such as surgeries, post office,*
-

---

*library etc. By completing the Lôn Las through the tunnel, the residents of Bethesda and the area (a population of approximately 24,000) can take advantage of a resource to travel without having to use a vehicle which brings benefits in terms of the well-being of the individual and the environment. In implementing the scheme, the Council meets the objectives of the Active Travel Act.*

- Safety : as there is no direct link between the two sections of the Lôn Las at present, users must follow the highway between Tregarth and Bethesda. A direct route through the tunnel would reduce the risk of accidents between users of the Lôn Las and traffic on the highway.*
- Well-being/Recreation : the Recreational Routes network is already a resource which is used a great deal by local residents who wish to keep fit. Developing the tunnel would provide a better resource which is convenient for the residents of Tregarth and Bethesda including members of sports clubs and societies such as the Bethesda Rugby Club which is adjacent to the existing path. It is believed that the development complies with the objectives of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, which is linked with a healthier Wales and cohesive communities.*
- The Economy/Tourism : the Council and Visit Wales focus marketing efforts on the outdoor sector with walking and cycling being prominent in their campaigns. Lôn Las Ogwen has the potential to be an effective medium to attract walkers and cyclists to Bethesda and on to Nant Ffrancon and Llyn Ogwen. Developing the tunnel and the viaduct would not only make travelling easier for visitors on foot and on bikes, but they are also attractions in themselves to be appreciated as part of the industrial heritage of the Bethesda area.*

*The department, together with the Cabinet Member for Planning and Regulatory will proceed to consider ways of promoting use of the path once the work will have been completed in order to ensure best value of the development.*

---

## **SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS**

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio.

Gwnaed sylw y byddai'n ddefnyddiol i'r dyfodol pe cwblheir dadansoddiad o'r oddeutu 100,000 o siwrnai a gwblheir ar y Lon.

*The report submitted by the Cabinet Member for Planning and Regulatory was accepted.*

*An observation was made that it would be useful for the future to undertake an analysis of the approximately 100,000 journeys completed on the route.*

---



---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS**

1. Y Prif Weithredwr / *Chief Executive*:-

Mae'n dda gweld bod y pecyn ariannu ar gyfer y cynllun hwn yn ei le bellach ac y gellir symud ymlaen.

*It's good to see that the funding package for the Project is now in place and that we can move forward.*

2. Swyddog Monitro / *Monitoring Officer*:-

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

*No comments to add from a propriety perspective.*

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-

Cadarnhaf, wedi ymgynghori'n briodol gyda'r Aelodau Cabinet perthnasol yn ystod 2015/16, fod £200,000 eisoes wedi'i neilltuo i'r perwyl hwn gan yr Adran Rheoleiddio. Nodaf fod hynny wedi galluogi'r Cyngor i fanteisio ar grant o £230,000 gan Lywodraeth Cymru i gwblhau'r cynllun. Croesawir y cyfle yma i wella asedau Gwynedd a darparu budd i ddefnyddwyr Lôn Las Ogwen. Gwerthfawrogaf hefyd y cynigion gan Gynghorau Cymuned Bethesda a Llandygai i gyfrannu tuag at gostau cynnal y lôn a'r twnel, a fydd yn lleddfu ychydig ar ymrwymiad refeniw perthnasol y Cyngor yn y maes.

*Having properly consulted with relevant Cabinet Member during 2015/16, I can confirm that £200,000 has been earmarked by the Regulatory Department for this purpose. I note that this has allowed the Council to benefit from a Welsh Government grant of £230,000 to complete the plan. We welcome this opportunity to improve Gwynedd's assets and benefiting the users of Lôn Las Ogwen. I also appreciate the proposals by Bethesda and Llandygai Community Councils to contribute towards the costs of maintaining the road and tunnel, which will ease some of the Council's revenue related commitment in the field.*

---

**BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER**

Nid yw'n fater lleol.

*Not a local matter.*

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD  
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 28/06/2016

**PWNC / SUBJECT**

**Eitem :** Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015/16 – meysydd Plant a Phobl Ifanc, Y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon, Cynllunio Ariannol a'r Amgylchedd.

*Item :* Overview of Gwynedd Council's Performance 2015/16 - fields of Children and Young People, the Welsh Language, Effective and Efficient Council, Financial Planning and the Environment.

---

**PENDERFYNIAD / DECISION**

Derbyn a nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad i'r cyfarfod, gan weithredu ar unrhyw argymhellion.

*To accept and note the information submitted in the report at the meeting, implementing any recommendations.*

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION**

Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir trosolwg o berfformiad y Cyngor hyd yma yn 2015/16. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod yn canolbwyntio ar Blant a Phobl Ifanc, Y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon, Cynllunio Ariannol, a'r Amgylchedd sy'n rhan o bortffolio'r Aelodau Cabinet canlynol:

Y Cyngorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg  
Y Cyngorydd Mair Rowlands, Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden  
Y Cyngorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau  
Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn, Dirprwy Arweinydd  
Y Cyngorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet yr Amgylchedd  
Y Cyngorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio

Mae'r adroddiad yn cyfarch y cynlluniau trawsnewidiol sydd yn y Cynllun Strategol yn ogystal ag yn tynnu sylw at y mesurau perfformiad sydd yn adlewyrchu gwaith dydd i ddydd y Cyngor.

Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2015/16 ym meysydd Plant a Phobl Ifanc, y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon, Cynllunio Ariannol a'r Amgylchedd (sydd ym meysydd portffolio'r Aelodau Cabinet a enwir uchod). Amlygwyd y pwyntiau isod:

---

---

### **P1 Strategaeth Ansawdd Addysg**

- Mae pwyslais cryf o fewn yr adran i wella'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen, ond dylid cymryd i ystyriaeth fod nifer o'r disgyblion yma yn dysgu iaith newydd ac felly ei fod yn gyfnod heriol.
- Ystyrir Trothwy Lefel 2+ fel prif ddangosydd ar gyfer perfformiad disgyblion, ac mae'r Aelod Cabinet yn falch iawn ei fod yn gwella'n flynyddol a bod Gwynedd yn y bumed safle yng Nghymru.

### **P2 Gwella arweinyddiaeth a rheolaeth**

- Mae'r rhaglen *Datblygu Penaethiaid Profiadol* yn cynnwys adnabod Arweinyddion potensial i gwblhau CPCP drwy'r gwaith a gwblheir gan GwE, ond maent hefyd yn annog unrhyw un sydd â diddordeb i ddod ymlaen.

### **P8 Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**

- Mae trafodaethau ar gydweithio gyda Chyngor Ynys Môn yn parhau, a croesawodd yr Aelod Cabinet y berthynas sydd wrthi'n cael ei sefydlu gyda'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau er mwyn cydweithio'n agosach ar y strategaeth.

### **D1 Sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan i'r maes diogelu**

- Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc mai'r elfen fwyaf heriol o'r prosiect yw mesur effaith ein gwaith, ond cadarnhaodd bod Grŵp Tasg wedi ei sefydlu i fynd i'r afael a hyn.

### **D2 Diogelu Plant a Phobl Ifanc**

- Bydd adroddiad ar waith y Swyddog Diogelu o fewn yr Adran Addysg yn cael ei gyflwyno i Banel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus y Cyngor ymhob cyfarfod. Er ei bod yn gynamserol ar hyn o bryd i fesur llwyddiant, cytunwyd bod lle i ofyn am drosolwg o'r gwaith ar ôl y flwyddyn academaidd hon.
- Mynegwyd pryderon am dreiddiad diogelu o fewn cyrff Llywodraethol ysgolion, ac eglurwyd bod yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc wedi awgrymu bod bob Llywodraethwr yn derbyn hyfforddiant lefel 1. Bydd y Swyddog Diogelu yn gweithio gyda nhw ar ôl cwblhau'r gwaith gyda staff ac athrawon. Bydd yr Aelod Cabinet yn adrodd yn ôl ar unrhyw ddatblygiad yn yr adroddiad perfformiad nesaf.
- Cadarnhawyd bod rhaglen waith cynhwysfawr i yrru'r agenda ymlaen o fewn addysg ac mai rhan o'r gwaith yw cynnal awdit a chyfweld Llywodraethwyr a Swyddogion dynodedig er mwyn mynd i'r afael â'r hyn sy'n digwydd ar ôl y gwaith i godi ymwybyddiaeth. Ceir fwy o fanylder ar hyn pan ddaw adroddiad penodol ar waith diogelu gerbron y Cabinet.
- Bydd y Cabinet yn rhannu'r neges am bwysigrwydd y maes hwn gydag Aelodau'r Cyngor fel Llywodraethwyr ar gyfer gwahanol ysgolion, i geisio rhaeadru a gwreiddio eu cyfrifoldeb.

### **I1 Cymunedau yn hyrwyddo'r Gymraeg**

- Gwaith a weithredir gan Hunaniaith yw hwn, ond fe'i ariennir gan Lywodraeth Cymru.
  - Mae'r Dirprwy Arweinydd ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau gydag arbenigwyr yn y maes, o Brifysgolion Bangor ac Aberystwyth er mwyn ceisio ystyried ffyrdd effeithlon o fesur a dadansoddi gwir effaith y gwaith da a phwysu a mesur ai dyma'r ffordd orau i hyrwyddo'r Gymraeg.
-

---

## **I2 Y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus**

- Er nad yw'r prosiect yma wedi mynd i'r afael a'i flaenoriaethau ar hyn o bryd, mae'n gyfle hanfodol i ddylanwadu ar gyrrff cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â ni.

## **I3 Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol**

- Mynegwyd dymuniad i wneud dadansoddiad gwyddonol o'r data sydd gennym yn ogystal â chanlyniad y gwe iaith i allu gwir ystyried pa ymyraethau sy'n llwyddiannus, a beth yw'r aflwyddiannau – bydd hyn o fudd wrth geisio lledaenu'n ymyraethau drwy'r wlad.
- Yn dilyn y gwaith gyda'r ysgolion cynradd, mae gwaith rŵan wedi dechrau gyda'r ysgolion uwchradd, a'r trafodaethau'n parhau. Dylid ymfalchïo fod y gwaith yn lledaenu ar draws Gogledd Cymru, a'i fod bellach yn dechrau lledaenu ymhellach drwy Gymru hefyd.

## **I4 Awdit o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd**

- Bydd adroddiad ar y gwaith yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Iaith, a bwriedir creu rhaglen i atgyfnerthu sefyllfa'r Gymraeg o fewn y Cyngor. Mae'n debyg y bydd y rhaglen yn ystyried ffyrdd o hyrwyddo defnydd a darparu hyfforddiant ychwanegol.

## **C3 Ymgysylltu**

- Yn dilyn gwerthfawrogiad y cyhoedd o'r deialog wyneb yn wyneb yn ystod 'Her Gwynedd', nodwyd yr angen i ehangu'r deialog yma mewn meysydd eraill.
- Er bod y Cyngor wedi penderfynu ar doriadau, mae'n hanfodol parhau â'r broses ymgysylltu i sicrhau dealltwriaeth o'r hyn mae'r toriadau yn ei olygu wedi eu gweithredu'n ymarferol.

## **CA1 Gwireddu arbedion**

- Yn dilyn y sefyllfa yn ystod yr adroddiad blaenorol ar berfformiad, mae'r adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi cael trefn ar eu harbedion a diolchwyd iddynt am eu gwaith.

## **CA4 Effeithlonrwydd pellach a modelau darparu gwasanaeth**

- Eglurodd yr Aelod Cabinet Adnoddau bod y dasg o ddarganfod ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau yn heriol bellach, ond bod gwaith yn parhau.

## **Mesurau**

**WMT/009 a PB51** – Croesawodd yr Aelod Cabinet Amgylchedd y mesurau sy'n awgrymu bod y newid i gasglu gwastraff gweddilliol bob tair wythnos yn profi'n llwyddiannus, a dylid ymfalchïo ei fod yn cael ei fabwysiadu mewn Siroedd eraill.

**PAM 9a** – Cymeradwyodd yr Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio'r ffaith bod y mesur yma gyda'r uchaf ag y buodd erioed yng Ngwynedd, gyda 93% yn cyrraedd sgôr hylendid bwyd 4/5 yn 2015/16. Mae gwaith yn parhau er mwyn mynd i'r afael â'r 7% arall a'u cefnogi i gyrraedd yr un sgôr.

---

---

*In accordance with the Council's performance management system, an overview of the Council's performance thus far in 2015/16 is submitted. This report submitted to the meeting focused on Children and Young People, The Welsh Language, Effective and Efficient Council, Financial Planning and the Environment which are included in the portfolios of the following Cabinet members:*

*Councillor Gareth Thomas, Cabinet Member for Education  
Councillor Mair Rowlands - Cabinet Member for Children, Young People and Leisure  
Councillor Peredur Jenkins, Cabinet Member for Resources  
Councillor Dyfrig Siencyn, Deputy Leader  
Councillor John Wynn Jones, Cabinet Member for the Environment  
Councillor Dafydd Meurig, Cabinet Member for Planning and Regulatory*

*The report addresses the transformational plans included in the Strategic Plan and draws attention to the performance measures that reflect the Council's day to day work.*

*Progress reports were submitted on the 2015/16 Strategic Plan projects in the fields of Children and Young People, the Welsh Language, Effective and Efficient Council, Financial Planning and the Environment (included within the portfolios of the Cabinet Members noted above). The following points were noted:*

***P1 Education Quality Strategy***

- There is strong emphasis within the department to improve the Foundation Phase Indicator, but it should be borne in mind that many of these pupils are learning a new language and that it is therefore a challenging time.*
- The Level 2+ Threshold is considered the main indicator for pupil performance, and the Cabinet Member is very pleased that it is improving year on year and that Gwynedd is in fifth position in Wales.*

***P2 Improving leadership and management***

- The Developing Experienced Heads programme includes identifying potential Leaders to complete the NPQH through the work completed by GwE, but they also encourage anyone interested to come forward.*

***P8 Transforming the provision of Additional Learning Needs and Inclusion***

- Discussions on collaboration with Anglesey County Council continue, and the Cabinet Member welcomed the relationship which is being established with the Services Scrutiny Committee in order to collaborate more closely on the strategy.*

***D1 Ensure whole Council ownership in the safeguarding field***

- The Cabinet Member for Children and Young People explained that the most challenging element of the project was measuring the effect of our work, but she confirmed that a Task Group has been established to address this.*

***D2 Safeguarding Children and Young People***

- A report on the work of the Safeguarding Officer within the Education Department will be submitted to the Council's Strategic Children and Vulnerable*
-

---

*Adults Panel at every meeting. Though it is currently too early to measure success, it was agreed that there was room to ask for an overview of the work after this academic year.*

- *Concerns were expressed regarding the penetration of safeguarding within school Governing Bodies, and it was explained that the Cabinet Member for Children and Young People had suggested that every Governor should receive level 1 training. The Safeguarding Officer will work with them after completing the work with staff and teachers. The Cabinet Member will report back on any developments in the next performance report.*
- *It was confirmed that there is a comprehensive work programme to drive this agenda forward within education and that a part of the work is to hold an audit and interview Governors and designated Officers in order to address what happens after the work to raise awareness. More details will be provided on this when the specific report on safeguarding work will be submitted to the Cabinet.*
- *The Cabinet will share the message about the importance of this field with Council Members as Governors of various schools, to try to disseminate and embed their responsibilities.*

#### ***I1 Communities promoting the Welsh Language***

- *This is work undertaken by Hunaniaith, but it is funded by Welsh Government.*
- *The Deputy Leader is currently holding discussions with experts in the field, from Bangor and Aberystwyth Universities in order to seek to consider efficient ways of measuring and analysing the true impact of this good work and to consider whether this is the best way of promoting the Welsh language.*

#### ***I2 The Welsh language and public services***

- *Though this project has not addressed its priorities at present, it is an essential opportunity to influence other public bodies involved with it.*

#### ***I3 Young people using the Welsh language socially***

- *A desire to undertake a scientific analysis of the data we have as well as the result of the language web was expressed, in order to be able to properly consider which interventions are successful, and what is unsuccessful - this will be beneficial when seeking to disseminate the interventions throughout the county.*
- *Following the work with the primary schools, work has now started with the secondary schools, and discussions are ongoing. Pride should be taken in the fact that the work is spreading across North Wales and that it is now starting to spread to the rest of Wales also.*

#### ***I4 Audit of the Welsh Language's situation in Gwynedd Council***

- *A report on the work will be discussed at the next meeting of the Language Committee, and it is intended to create a programme to strengthen the position of the Welsh language within the Council. It is likely that the programme will consider ways of promoting use and providing additional training.*

#### ***C3 Engagement***

- *Following the public's appreciation of the face to face dialogue during 'Gwynedd Challenge' the need to extend this dialogue in other fields was noted.*
-

- 
- *Though the Council has decided on the cuts, it is essential to continue with the engagement process to ensure an understanding of what the cuts mean in practice after they have been implemented.*

#### **CA1 Realising savings**

- *Following the situation during the previous report on performance, the Adults, Health and Well-being department has been able to get their savings in order and they were thanked for their work.*

#### **CA4 Further efficiencies and service provision models**

- *The Cabinet Member for Resources explained that the task of discovering different ways of providing services is now challenging, but that work was continuing.*

#### **Measures**

**WMT/009 and PB51** - *The Cabinet Member for the Environment welcomed the measures which suggest that the change to three-weekly collections of residual waste is proving successful, and pride should be taken in the fact that it is being adopted in other Counties.*

**PAM 9a** - *The Cabinet Member for Planning and Regulatory commended the fact that this measure was among the highest it has ever been in Gwynedd, with 93% reaching a food hygiene score of 4/5 in 2015/16. Work is continuing in order to address the other 7% and to support them to reach the same score.*

---

#### **SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS**

Gan dderbyn y sylwadau uchod, derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Arweinydd.

*Accepting the aforementioned observations, the report submitted by the Leader was accepted.*

---

#### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS**

1. Y Prif Weithredwr / *Chief Executive*:-

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad sy'n hunanesboniadol.

*Nothing to add to the report which is self-explanatory.*

2. Swyddog Monitro / *Monitoring Officer*:-

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

*No comments to add from a propriety perspective.*

---

---

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-  
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

*Nothing to add regarding financial propriety.*

---

**BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER**

Nid yw'n fater lleol.

*Not a local matter.*

---



**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD  
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 28/06/2016

**PWNC / SUBJECT**

Eitem : Blaenraglen Waith Cabinet Cyngor Gwynedd

Item : *Gwynedd Council Cabinet's Forward Work Programme*

---

**PENDERFYNIAD / DECISION**

Cymeradwyo'r Flaenraglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod, yn amodol ar wneud yr addasiadau isod:

- Cyng. Dafydd Meurig ddim i gyflwyno 'Safle Glyn Rhonwy' i'r Cabinet ar 12 Gorffennaf 2016.
- Cyng. Peredur Jenkins ddim i gyflwyno 'Adolygu Strategaeth Ffordd Gwynedd' ar 12 Gorffennaf 2016, ond ei ohirio i gyfarfod o'r Cabinet yn ystod Chwarter 4 2016/17.

*Approve the Forward Work Programme included with the meeting papers, subject to the following adaptations:*

- *Cllr Dafydd Meurig not to submit 'Glyn Rhonwy Site' to the Cabinet on 12 July 2016.*
- *Cllr Peredur Jenkins not to submit 'Review of Ffordd Gwynedd Strategy' on 12 July 2016, but to postpone it until a Cabinet meeting during Quarter 4 of 2016/17.*

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION**

Yn unol ag Adran 14.13 o Gyfansoddiad y Cyngor, bydd y Cabinet yn rhannu ei Flaenraglen waith am y cyfnod dilynol o chwe mis gyda'r cyhoedd. Bydd y Flaenraglen yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

*In accordance with Section 14.13 of the Council's Constitution, the Cabinet will share its Forward Work Programme for the subsequent period of six months with the public. The Forward Work Programme will be published on the Council website.*

---

**SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS**

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Arweinydd.

*The report submitted by the Leader was accepted.*

---

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS**

1. Y Prif Weithredwr / *Chief Executive*:-

Dim i'w ychwanegu.

*Nothing to add.*

2. Swyddog Monitro / *Monitoring Officer*:-

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

*Nothing to add regarding propriety.*

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-

Dim i'w ychwanegu.

*Nothing to add.*

---

**BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER**

Ddim yn berthnasol. / *N/A.*

---